**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A40 A'R A449 (FFORDD OSGOI RHAGLAN, SIR FYNWY) (TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA A 40 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a therfyn cyflymder 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Bydd Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Ffordd Osgoi Rhaglan, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025 (WG25-49) yn cael ei ddirymu.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 1 Ebrill 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn Hyb Cymunedol y Fenni, Neuadd y Dref, Cross Street, Y Fenni, NP7 5EU.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2353080.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 22 Ebrill 2026.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech ddatgan hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei

**THE A40 & A449 TRUNK ROADS (RAGLAN BYPASS, MONMOUTHSHIRE) (50 MPH AND 40 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2) and 124(3) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 50 mph speed limit on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice and a 40 mph speed limit on the length of the trunk road specified in Schedule 2.

The A40 & A449 Trunk Roads (Raglan Bypass, Monmouthshire) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2025 (WG25-49) will be revoked.

During a period of 21 days from 1 April 2026, a copy of the proposed Order, the Statement of Reasons for making the Order and the plan may be inspected, free of charge, at Abergavenny Community Hub, Town Hall, Cross Street, Abergavenny, NP7 5EU.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch at the address below, quoting reference number qA2353080.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 22 April 2026.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the

gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 39.5 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Rhaglan hyd at bwynt ar ffordd ymuno tua'r gogledd yr A40 sydd 20 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd yr A40.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 5.5 metr i'r de o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at bwynt 39.5 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Rhaglan.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Rhaglan.

Y darn o ffordd ymuno'r A40 sy'n arwain at yr A449 tua'r de wrth Gyfnewidfa Rhaglan sy'n ymestyn o'i chyffordd â thrwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd sy'n arwain at brif gerbytffordd tua'r gogledd yr A40 hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â thrwyniad prif gerbytffordd tua'r de yr A449.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A40 Monmouth Road sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 am bellter o 48 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gogledd/gorllewin yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan sy'n ymestyn o bwynt 129.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 hyd at y man lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40.

Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice, the proposed Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**

The length of the eastbound carriageway of the A40 trunk road that extends from a point 39.5 metres west of its junction with the circulatory carriageway of Raglan Roundabout to a point on the A40 northbound entry slip road 20 metres north-east of its nosing with the main A40 carriageway.

The length of the westbound carriageway of the A40 trunk road that extends from a point 5.5 metres south of its nosing with the main A449 carriageway at Raglan Interchange to a point 39.5 metres west of its junction with the circulatory carriageway of Raglan Roundabout.

The circulatory carriageway of Raglan Roundabout.

The length of the A40 entry slip road leading to the southbound A449 at Raglan Interchange that extends from its junction with the nosing of the northbound entry slip road leading to the main A40 northbound carriageway to a point 38 metres north-east of its junction with the nosing of the main A449 southbound carriageway.

The length of the A40 Monmouth Road westbound exit slip road that extends from its junction with the main westbound A40 for a distance of 48 metres.

The length of the A449 north/westbound exit slip road at Raglan Interchange that extends from a point 129.5 metres south-east of its nosing with the main westbound A40 to its merge with the main A40 westbound carriageway.

## ATODLEN 2

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A40 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â'r A40 Ffordd Osgoi Rhaglan hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd Groesenon Road am bellter o 113 o fetrau.

## SCHEDULE 2

The length of the A40 eastbound exit slip road that extends from its nosing with the A40 Raglan Bypass to its junction with the main carriageway of Groesenon Road for a distance of 113 metres.